
Cwmni Theatr
Arad Goch

# 1. CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Cwmni Theatr Arad Goch yn 1989. Mae ein gwaith yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau: gyda'n gwaith cynhyrchu a pherfformio, a'n gweithgareddau cyfranogol cymunedol rydym yn cyrraedd rhyw 25,000 o bobl yn flynyddol. Ni yw'r unig gwmni cynhyrchu theatr sefydlog rhwng Caerfyrddin a Bangor ac yn un o'r ychydig sefydliadau creadigol sydd yn gweithredu'n gyfan gwbl drwy'r Gymraeg.

Mae'r cwmni wedi goroesi cyhyd oherwydd ein perthynas adeiladol gyda noddwyr wrth eu cynorthwyo i gyflawni eu strategaethau, ein gweledigaeth artistig heriol, ein gofal dros ein cynulleidfaoedd, a'n rheolaeth busnes craff: rydym yn cyfuno menter greadigol â diogelwch rheolaethol.

Mae gan y cwmni Fwrdd Rheoli cryf a gweithgar o ymddiriedolwyr gwirfoddol sy'n cynnwys arbenigeddau o sawl maes a sector. Mae'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Busnes yn atebol i'r Bwrdd Rheoli sydd, fel arfer, yn cwrdd bob tri mis ac yn amlach pan fo angen.

Mae'r cwmni yn derbyn nawdd sylweddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC); cadarnhawyd hyn ar sail Adolygiad Buddsoddi y Cyngor yn 2023.

Mae gan y cwmni ei ganolfan gynhyrchu yng nghanol tref Aberystwyth. Datblygwyd y ganolfan honno gyda buddsoddiad o £3.5miliwn gan CCC ac eraill rhwng 2006 a 2008; ail-fodelwyd blaen y ganolfan, eto gyda buddsoddiad gan CCC, yn 2018-19 er mwyn ei gwneud yn fyw hygyrch, agored a chroesawgar. Mae'r ganolfan yn cael ei defnyddio gan Arad Goch ei hun, gan artistiaid theatr eraill i ymarfer a pherfformio, gan aelodau'r gymuned, yn enwedig pobl ifanc, a gan artistiaid gweledol sydd yn arddangos eu gwaith yn yr oriel newydd. Mae'r amrywiaeth yma o ddefnyddwyr yn cyfrannu at ethos y Ganolfan fel cyrchfan creadigol a lle i gyfnewid syniadau a gwaith. Yn ogystal mae gan y cwmni stordy a gweithdy adeiladu ar ystâd diwydiannol y tu allan i'r dref. Yno cedwir ein setiau theatr, gwisgoedd ac offer technegol.

Mae ein cynlluniau gwaith am y blynyddoedd nesaf yn uchelgeisiol: rydym am ddatblygu ein gweithgareddau gan roi mwy o gyfleoedd creadigol i artistiaid proffesiynol ac aelodau'r gymuned a thrwy hyn byddwn yn cynyddu ac ehangu ein cyrhaeddiad. Fe wneir hyn ar sail ein llwyddiant, profiad ein staff, ein cysylltiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, a'r adnoddau gwych yn Nghanolfan Arad Goch yn nhref Aberystwyth ac yn ein gweithdy a storfa sydd ar gyrion y dref.

**www.aradgoch.cymru**
**www.agordrysau.cymru**

**01970 617 998**
**post@aradgoch.org**
**@aradgoch**

Elusen gofrestredig: 702506

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant cofrestredig
yng Nghymru: 2375424

Rhif TAW: 549 6488 83

Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn aelod o'r corff rheolaethol the Independent Theatre Council (www.itc-arts.org) ac yn cydymffurfio â chanllawiau cyflogaeth a chytundebol y corff hwnnw.



SGLEINIO'R LLEUAD 2025

# 2. DYMA NI – EIN GWELEDIGAETH, CENHADAETH a GWERTHOEDD

## *Gweledigaeth*

*Rydym yn gweithio i greu'r theatr orau sydd yn hygyrch ac yn gynhwysol ar gyfer y cynulleidfaoedd gorau - plant, pobl ifanc a theuluoedd.*

*Rydym eisiau i'n cynulleidfaoedd glywed eu straeon, dychmygu eu breuddwydion, profi eu byd, rhyfeddu, meddwl, a chwerthin - trwy'r theatr.*

## *Cenhadaeth*

*Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn gwmni lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.*

*Rydym yn creu theatr arloesol o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc a gyda nhw.*

*Rydym yn darparu cyfleoedd i artistiaid theatr i gydweithio, ymchwilio a chreu gwaith cyffrous newydd.*

*Mae ein gwaith yn dathlu hunaniaeth Gymreig fel rhan o ddiwylliant cyfoes y byd.*

## *Gwerthoedd*

*Er mwyn ysbrydoli uchelgais, creadigrwydd, hyder a meddwl, mae ein gwaith:*

- *wedi'i wreiddio ac yn arloesol,*
- *yn addysgiadol ac yn ddifyr,*
- *yn meithrin ac yn grymuso,*
- *yn gynhwysol ac yn gydweithredol,*
- *yn heriol ac yn hygyrch,*
- *o Gymru a'r Byd.*

*Cymraeg yw prif iaith gwaith y cwmni; rydym yn gweithredu'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg gan hyrwyddo ethos iaith amlieithog a chynhwysol.*

# 3. CAMAU GWEITHREDU CYFFREDINOL

## Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys y camau cyffredinol isod.

### a) Gwaith newydd, ffyrdd newydd o weithio

Creu cynyrchiadau theatr i gynulleidfaoedd ifanc yw prif elfen gwaith y cwmni. Yn ganolog i'n hethos mae archwilio prosesau creadigol newydd; rydym yn adeiladu ein perfformiadau gyda chyfuniadau o arddulliau perfformio er mwyn creu profiadau theatrig cyflawn ac amrywiol ac i gynnig cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad eang.

### b) Fel y gwelir trwy fy llygaid; fel y siaredir gan fy llais

Rydym yn cynnal ein harfer proffesiynol a'n gwaith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc, ochr yn ochr â'i gilydd; fe ddigwydd nifer o weithgareddau cyfranogol yng Nghanolfan Arad Goch yn Aberystwyth. Rydym am archwilio ffyrdd o ddod â'r ddwy elfen yma'n nes at ei gilydd, gan alluogi cyfranogiad ehangach yn ein prosesau creadigol a datblygu gwaith newydd.

### c) Dewch i ni weithio gyda'n gilydd

Mae gan Gwmni Theatr Arad Goch hanes hir a llwyddiannus o gyd-gynhyrchu a chydweithio ag eraill gan gynnwys BBC Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yr NSPCC, gwasanaethau ieuenctid sawl sir, theatrau a chanolfannau celfyddydol yng Nghymru, Comisiynwyr Heddlu a nifer o gwmnïau  a gwyliau theatr rhyngwladol. Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd o gydweithredu gyda sefydliadau o fewn y sector creadigol ac oddi allan iddo, yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

### ch) Ehangu cyfleoedd, ehangu gweledigaeth, ehangu cyrhaeddiad

Mae ein maes ni yn un arbenigol. Fel cyd-destun strategol ar gyfer datblygu, rydym am archwilio ffyrdd o ffurfioli ein perthynas gyda grŵp o artistiaid theatr cyswllt llaw-rydd.  Yn ogystal, er mwyn ehangu sylfaen gwybodaeth a sgiliau'r cwmni, yn enwedig yn yr iaith Gymraeg, byddwn yn datblygu ffyrdd o weithio gyda phobl greadigol o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes theatr i gynulleidfaoedd ifanc yng Nghymru.

### d) Y Gymraeg yng nghanol ein gwaith

Cwmni Theatr Arad Goch yw un o'r ychydig sefydliadau creadigol sydd yn gweithredu yn llwyr ac yn gyson drwy'r Gymraeg. Rydym yn creu ein holl gynyrchiadau yn y Gymraeg a'u trosi, wedyn, i'r Saesneg a ieithoedd eraill. Mae Canolfan Arad Goch yn ofod ieithyddol ddiogel ble mae siaradwyr Cymraeg rhugl a siaradwyr Cymraeg newydd yn gallu cydweithio.

Rydyn ni am helpu pobl eraill i weithio drwy'r Gymraeg. Rydym am rannu ein sgiliau a'n profiadau helaeth o weithio yn y Gymraeg ac yn amlieithog er mwyn creu cyfleoedd i weithwyr creadigol sy'n siaradwyr Cymraeg newydd, er mwyn darparu theatr i ystod ehangach o gynulleidfaoedd, yn enwedig i bobl ifanc a theuluoedd Cymraeg a dwyieithog, a, thrwy gydweithio, er mwyn cynorthwyo sefydliadau eraill y sector yng Nghymru i wella eu darpariaeth drwy'r Gymraeg. Yn ogystal, rydym am ddenu mwy o siaradwyr newydd i brofi theatr Gymraeg, yn enwedig teuluoedd a phobl ifanc.



*GWLEDD GWYDDNO*
– Gŵyl Hen Linell Bell, 2017

aradgoch.cymru

# 4. GWEITHGAREDDAU'R CWMNI

## Mae'r adran hon yn nodi prif elfennau gwaith y cwmni.



*RWTSH RATSH RALA RWDINS, 2019*

### Cynyrchiadau ar raddfa ganolig a mawr i blant a theuluoedd a chynyrchiadau ar raddfa ganolig a mawr i bobl ifanc.

Cwmni cynhyrchu yw Cwmni Theatr Arad Goch sydd yn teithio i berfformio ei waith ledled Cymru a thu hwnt. Dyma un o elfennau mwyaf llwyddiannus ein gwaith. Er enghraifft yn ddiweddar, rydym wedi teithio cynhyrchiad graddfa fawr TWM SIÔN CATI i 20 o leoliadau gan roi 30 o berfformiadau – sydd yn anarferol iawn i'r theatr Gymraeg. Yn ogystal rydym wedi cyflwyno drama tair-ieithog (Cymraeg, Saesneg a BSL) graddfa ganolig, sef BLE MAE'R DAIL YN HEDFAN, mewn 12 theatr neu ganolfan yn ogystal â nifer o ysgolion. Mae ein perfformiadau, gan amlaf, yn gwerthu yn dda iawn gan lenwi llawer iawn o'r theatrau. Mae ein cynyrchiadau diweddar i bobl ifanc wedi cynnwys SXTO gan Bethan Gwanas a Croesi'r Llinell gan Mared Llywelyn. Fel rhan o hyn rydym am ymchwilio ffyrdd o greu cynyrchiadau amlgyfrwng ac aml-blatfform newydd i gynulleidfaoedd ifanc sy'n cyfuno theatr draddodiadol ag elfennau digidol ar-lein.

### Perfformiadau arbenigol i ysgolion.

Er nad hwn yw ein prif ffocws, un o'r ffyrdd tecaf o sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad at theatr dda, fyw a pherthnasol yw trwy greu gwaith arbenigol y gellir ei berfformio mewn ysgolion - mannau cyfarfod i bron pob plentyn a pherson ifanc beth bynnag fo'u cefndiroedd. Rydym am barhau i weithio gydag adrannau addysg awdurdodau lleol, ysgolion ac asiantaethau eraill i sicrhau bod cymaint o blant a phobl ifanc â phosibl yn cael mynediad am ddim neu fforddiadwy i'n gwaith.

### Datblygu sector a chynlluniau mentora.

Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys:

- Cynllun 6x1 a sefydlwyd yn 2012 i annog a chynorthwyo perfformwyr llaw-rydd i greu eu gwaith eu hunain. Rhoddir cyflog ar gyfer datblygu a chreu'r gwaith, cyngor creadigol pan fo angen, cefnogaeth gweinyddol staff y cwmni a defnydd o adnoddau'r ganolfan i greu'r gwaith. Byddwn yn parhau â'r cynllun llwyddiannus hwn.
- Cynllun mentora yw AGoriad ar gyfer artistiaid theatr o garfannau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y theatr Gymraeg i gynulleidfaoedd ifanc. Yn debyg i gynllun 6x1, cynigir cyflog, arian cynhyrchu, adnoddau a chefnogaeth fentora fel bo angen.


P
Deiliaid bathodyn anabledd yn unig
Llun - Sad
9 am - 6 pm
2 awr
Disabled badge holders only
Mon - Sat
9 am - 6 pm
2 hours
HENFAES HOUSE
32

*CLERA, 2021*

**Canolfan Arad Goch - lle i rannu, lle i greu.**

Mae Canolfan Arad Goch yn ganolfan greadigol Gymraeg, yng nghanol tref Aberystwyth ble mae pobl yn dod ynghyd i greu ac i drafod.

Agorwyd y ganolfan yn 2008 ar ôl buddsoddiad o £3.2 miliwn gan arian Loteri CCC, arian ERDF (Ewrop), Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth. Ail-fodelwyd ardal gyhoeddus cyntedd y ganolfan yn 2018 gyda'r bwriad o greu delwedd fwy agored a chroesawgar er mwyn cynyddu defnydd a mynediad. Mae yna gyfleusterau rhagorol ac mae eisoes yn ganolbwynt creadigol a ddefnyddir gan y cwmni, artistiaid proffesiynol eraill, a chan aelodau o'r gymuned, yn enwedig pobl ifanc.

Mae gan Ganolfan Arad Goch dair ystafell berfformio a ddefnyddir gan y cwmni a gan berfformwyr eraill i ymarfer a chynnal perfformiadau. Mae gweithgareddau'r Ganolfan yn cynnwys:

- clybiau drama a pherfformiadau gan blant a phobl ifanc; mae ein clybiau drama AGwedd a blAGur yn cwrdd yn wythnosol yn perfformio yn y ganolfan;
- Torri Tir – Grŵp theatr i oedolion sydd yn cwrdd yn wythnosol i ddatblygu sgiliau, perfformio, rhannu syniadau a chymdeithasu yn Gymraeg trwy ddrama.
- celf pobl ifanc. Mae cyntedd y ganolfan yn oriel gelf ble rydyn ni'n cynnal arddangosfeydd gan artistiaid Cymraeg; rydym am archwilio ffyrdd o gynyddu defnydd o'r Oriel gan roi ffocws i waith gan artistiaid gweledol Cymraeg ifanc;
- cyrsiau theatr technegol i bobl ifanc;
- diwrnodau ac wythnosau creadigol i blant, pobl ifanc neu deuluoedd;
- perfformiadau mewn-osodedig (installation); o bryd i'w gilydd rydyn ni'n creu perfformiadau penodol i'r ganolfan;
- cydweithio gyda mudiadau o sectorau eraill; er enghraifft mae Mind Aberystwyth yn cynnal gweithgareddau therapi celf yno.


CLWB DRAMA BLAGUR



COLLI HI/MELTDOWN 2025

## Ein hagenda rhyngwladol

Rhan o ethos Cwmni Theatr Arad Goch yw'r gred y dylai diwylliant Cymru sefyll ochr yn ochr â diwylliannau eraill mewn cyd-destun rhyngwladol.

Rydym yn ymwybodol o'r farchnad ryngwladol enfawr bosibl ar gyfer theatr arloesol o safon i gynulleidfaoedd ifanc; mae'r cwmni wedi bod yn weithgar yn y farchnad hon ers 1996 ac yn ystod y degawd diwethaf rydyn ni wedi teithio i berfformio yn Rwsia, De Corea, Pacistan, Tiwnisia, Gwlad Pwyl, chwe thaith i berfformio yn Ffrainc, pump i Gatalwnia a'r Ynysoedd Balearig, a gwledydd eraill.

Cwmni Theatr Arad Goch sy'n trefnu unig ŵyl theatr ryngwladol Cymru - *AGOR DRYSAU - OPENING DOORS - Gŵyl Theatr Ryngwladol Cymru ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc* gyda'r nod o:

- *ehangu'r dewis o theatr sydd ar gael i gynulleidfaoedd ifanc o Gymru trwy eu galluogi i weld peth o theatr gorau'r byd yng Nghymru;*
- *gwella gweledigaeth a phrofiad proffesiynol ymarferwyr theatr yng Nghymru trwy ddarparu cyfleoedd i rwydweithio, cydweithredu a chyfnewid;*
- *cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith ein cydweithwyr rhyngwladol o theatr ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc a grëwyd yng Nghymru er mwyn hyrwyddo cynnyrch Cymru ar y farchnad ryngwladol.*

Cynhelir yr ŵyl nesaf fis Mawrth 2027.

# SWYDDI NEWYDD YN ARAD GOCH

**Dewch i weithio gyda ni ar adeg gyffrous yn hanes y cwmni!**

**Ni'n chwilio am y canlynol:**

## RHEOLWR CYNHYRCHU

Person cymwys i oruchwylio holl agweddau technegol a chynhyrchu'r cwmni – yn Aberystwyth ac ar daith – ac i gyfrannu at syniadau a datblygiadau'r cwmni yn y dyfodol.

(Oriau gwaith – 40 awr; Cyflog- £25,397 - £31,389; Lleoliad – Aberystwyth)

## RHEOLWR MARCHNATA A CHYFATHREBU

Person brwdfrydig i reoli gwaith marchnata a chyfathrebu y cwmni. Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y swydd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am hyrwyddo a marchnata cynyrchiadau a gweithgareddau'r cwmni.

(Oriau gwaith – 40 awr; Cyflog- £25,397 - £31,389; Lleoliad - Aberystwyth)

## CYNHYRCHYDD

Person brwdfrydig a threfnus i gydlynu a chefnogi'r gwaith o gyflwyno theatr i blant a phobl ifanc o'r safon uchaf led led Cymru ac yn rhyngwladol, a gweithgareddau creadigol a chyfranogol y cwmni.

(Oriau gwaith – 24 awr; Cyflog - £25,397 - £31,389 (*pro rata*); Lleoliad – i'w drafod)

Ceir manylion am y swyddi hyn gan Nia Wyn Evans, Cyfarwyddwr Busnes. nia@aradgoch.org

DYDDIAD CYCHWYN: Bydd y swyddi yn cychwyn mor fuan â phosib. Fodd bynnag, byddwn yn fodlon gohirio'r dyddiad cychwyn er mwyn denu'r person mwyaf cymwys.

CEISIADAU: Dylid anfon ceisiadau ar ffurf llythyr a CV gydag enwau dau ganolwr at y Cyfarwyddwr Busnes erbyn 12yp ar Ddydd Gwener y 1af o Awst 2025. Cyfweliadau yn ystod wythnos 11/8/25.

TEITL Y SWYDD:

# RHEOLWR CYNHYRCHU

**Graddfa Cyflog:** £25,397 – £31,389 pro rata, gan ddibynnu ar brofiad.

**Oriau Gwaith:** 40 awr yr wythnos gan gynnwys oriau anghymdeithasol

**Yn Atebol i'r:** Cyfarwyddwr Artistig

**Lleoliad**: Aberystwyth ac a'r daith



## SWYDD RHEOLWR CYNHYRCHU

**Rydym am benodi person cymwys i fod yn aelod pwysig o dîm bach o staff parhaol. Bydd hi/ef yn goruchwylio holl agweddau technegol a chynhyrchu'r cwmni – yn ei ganolfannau ac ar daith – ac, yn bwysig, yn cyfrannu at syniadau creadigol, gwaith cynllunio a datblygiadau tymor hir y cwmni.**

**Mae'r cyfrifoldebau a nodir isod yn eang ac yn niferus: pwysleisiwn, fodd bynnag, na ddisgwylir i'r person a benodir weithredu'r holl waith ar ei ben/phen ei hun. Yn ogystal â'r Rheolwr Technegol/Cynyrchiadau, bydd technegwyr llawrydd ar gytundebau cyfnod penodol yn ôl yr angen.**

### GOFYNION

**Bydd gan y person a benodir brofiad o un neu fwy o'r meysydd canlynol:**

- defnyddio offer goleuo gan gynnwys defnyddio desgiau goleuo gwahanol;
- defnyddio offer sain a recordio sain;
- rheoli llwyfan;
- rheoli cynyrchiadau.

**Yn ogystal byddai gwybodaeth am y canlynol yn ddefnyddiol ond ddim yn angenrheidiol:**

- sgiliau i weithio ar blatfformau digidol gwahanol,
- defnyddio offer AV;
- cynllunio goleuo ac/neu sain.

### AMODAU'R SWYDD

**Atebolrwydd:** Bydd y person a benodir yn atebol i'r Cyfarwyddydd Artistig, a thrwy y Cyfarwyddydd Artistig i Fwrdd Rheoli y cwmni.

## CYFRIFOLDEBAU - manylion

**Mae'r cyfrifoldebau a nodir isod yn eang ac yn niferus: pwysleisiwn eto, fodd bynnag, na ddisgwylir i'r person a benodir weithredu'r holl waith ar ei ben/phen ei hun.**

### CRYNODEB

Bydd y person a benodir i'r swydd hon yn gweithio o'r swyddfa yn Aberystwyth yn ogystal â mynd 'ar daith' gyda'r cynhyrchiad haf a rhai o gynyrchiadau eraill y cwmni. Bydd e/hi yn gyfrifol am oruchwylio holl waith technegol a rheoli llwyfan y cwmni - yng nghanolfan Arad Goch ac yn storfa'r cwmni yn Stad Ddiwydiannol Glanyrafon a phan fydd y cwmni yn cynhyrchu, teithio a chyflwyno cynyrchiadau; bydd hyn yn cynnwys:

- cyfrannu at drafodaethau creadigol ar gyfer cynyrchiadau unigol ac ar gyfer chynlluniau tymor hir y cwmni;
- rheoli staff technegol / llwyfan eraill a goruchwylio eu gwaith;
- gofalu am adnoddau technegol - gan gynnwys offer sain a goleuo, gwisgoedd, props, cerbydau ac offer adeiladu setiau - cadw trefn arnynt, sicrhau eu bônt yn cael eu cadw yn ddiogel a glan, sicrhau eu bônt yn addas i'w defnyddio, cadw record o'u lleoliad a'u defnydd;
- gweithredu fel rheolwr cynyrchiadau neu goruchwylio gwaith rheolwyr cynyrchiadau eraill;
- goruchwylio elfennau technegol/rheoli llwyfan canolfannau y cwmni;
- bod yn ymwybodol o ganllawiau iechyd a diogelwch ar gyfer gweithleoedd holl waith ymarfer, technegol, adeiladu a theithio y cwmni, llunio strategaethau ar gyfer eu gweithredu a goruchwylio eu gweithredu.

### TECHNEGOL / RHEOLI LLWYFAN / CYNHYRCHU

**Technegol:**

- defnyddio byrddau sain a goleuo;
- rigio ac addasu cynllun goleuo ar gyfer gwahanol theatrau a chanolfannau;
- ymgynghori â chanolfannau perfformio parthed pob trefniant "get-in", anghenion technegol y cwmni a.y.b.

**Yn ogystal gallai'r swydd, i berson cymwys, gynnwys:**

- creu cynlluniau goleuo;
- creu, cymysgu a golygu sain;
- cyfrannu at waith aml-blatfform y cwmni.

**Rheoli llwyfan:**

- rheoli tîm technegol/llwyfan;
- goruchwylio "get-ins", "get-outs" a "fit-ups";
- rheoli perfformiadau;
- trefnu galwadau staff yng nghanolfan y cwmni a phan ar daith.

**Yn ogystal gallai'r swydd gynnwys:**

- adeiladu neu goruchwylio adeiladu setiau llwyfan a phrops;
- gofal am wisgoedd, set, props ac offer technegol.

## TEITHIO

Bydd y person a benodir yn mynd ‘ar daith’ gyda rhai o gynyrchiadau’r cwmni. Bydd hyn yn golygu ‘get-ins’, ‘getouts’ a ‘fit-ups’ a ‘rhedeg’ y perfformiadau.

Pan fydd y cwmni yn teithio cynyrchiadau bach (er enghraifft i ysgolion) un technegydd / rheolwr llwyfan yn unig fydd ar daith. Weithiau y person a benodir fydd yn gwneud y gwaith yma; dro arall staff llaw-rydd fydd yn gwneud y gwaith yma o dan gyfarwyddyd y person a benodir.

Pan fydd y cwmni yn teithio cynyrchiadau llwyfan mwy o faint bydd y person a benodir yn aelod o dîm o ‘griw llwyfan/technegol’ neu yn arwain y tîm hwnnw.

Mae natur y swydd yn golygu y bydd angen i’r Swydd Rheolwr Technegol/Rheolwr Cynyrchiadau aros oddi cartref dros nos pan fydd y cwmni ar daith.

Bydd y Rheolwr Technegol/Cynyrchiadau yn cydweithio â’r staff gweinyddol i drefnu llety i aelodau’r cwmni pan ar daith.

## CANOLFAN Y CWMNI

Bydd y person a benodir yn gyfrifol am sicrhau fod adnoddau canolfannau’r cwmni yn cael eu cynnal yn iawn a bod gweithgareddau technegol y ganolfan yn cael eu gweithredu a’u staffio’n iawn.

Weithiau fydd ef/hi yn gyfrifol am ‘redeg’ sioeau yn y ganolfan. Hefyd fydd ef/hi yn gyfrifol am sicrhau staff cymwys i weithredu gweithgareddau technegol pan fydd gweithgareddau yn cael eu trefnu yn y ganolfan neu pan fydd cwmnïau eraill yn ymweld.

## CYNNAL A CHADW

- Cyfrifoldeb am system brawf i offer symudol (profion ‘PAT’) ar holl offer trydanol y cwmni gan gynnwys offer llwyfan a swyddfa;
- sicrhau glendid a threfn yn y gweithdy a storfeydd setiau / gwisgoedd y cwmni;
- mewn cyd-weithrediad â’r Cyfarwyddwr Busnes, cyd-gyfrifoldeb am ochr weinyddol cerbydau’r cwmni;
- creu a chadw cofnod o offer ac adnoddau’r cwmni.

## IECHYD A DIOGELWCH

Disgwylir i’r person a benodir i’r swydd gyd-weithio â’r Cyfarwyddwr Busnes i sicrhau amodau gwaith diogel i staff y cwmni drwy fod yn gyfrifol am rai agweddau penodol gan gynnwys:

- diogelwch y cwmni a’r cyhoedd ar daith;
- diogelwch o fewn y gweithdy trwy oruchwylio’r defnydd o offer trydanol, cemegau a.y.b.;
- cyfrifoldeb am gynnal cerbydau’r cwmni a rhoi arweiniad a chyngor i yrwyr y cerbyd;
- sicrhau fod asesiadau risgiau yn cael eu gwneud ar gyfer pob cynhyrchiad, taith a gweithgaredd;
- cynnal a chadw offer amddiffynnol personol y cwmni.




## ERAILL

- gyrru cerbyd y cwmni;
- bod yn gyfrifol am sicrhau bod yn cwmni yn cydymffurfio â gofynion, rheolau a rheoliadau cerbydau'r cwmni;
- cyfrifoldeb am gyllideb cynhyrchu sioeau unigol;
- ymdrin ag arian parod;
- goruchwylio'r adeilad pan y'i defnyddir fel canolfan berfformio cyhoeddus;
- gweithredu fel rheolwr / cydlynydd cynyrchiadau ar yr adegau pan fydd Arad Goch yn cynnal gŵyl ryngwladol
- Agor Drysau – Opening Doors (www.agordrysau.cymru), neu yn trefnu teithiau gan gwmnïau eraill o Gymru a thramor;
- cynnal cyrsiau hyfforddiant am elfennau technegol theatr a ffilm i aelodau'r cyhoedd (gan gynnwys plant a phobl ifanc), cydweithwyr ac athrawon;
- o dro i dro, ymgymryd â dyletswyddau rhesymol eraill perthnasol i'r swydd ar ofyn y Cyfarwyddydd Artistig.
- Mae'r cwmni'n gweithio'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg felly rhaid i'r person a benodir fod yn barod i weithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Os nad yw'r person a benodir yn rhugl yn y Gymraeg, bydd disgwyl iddo / iddi ddysgu'r iaith at safon ddigonol o fewn blwyddyn gynta'r cytundeb. Bydd y cwmni'n fodlon rhyddhau'r aelod o staff a apwyntir, ar gyflog, am gyfnodau penodol i fynychu cwrs hyfforddiant, am hyd at gyfanswm o 10 niwrnod o fewn y cyfnod prawf - i'w trafod yn ôl yr angen a chan ddibynnu ar raglen waith y cwmni.

## CYFARFODYDD

Disgwylir i Reolwr Cynhyrchu y cwmni fynychu cyfarfodydd staff y cwmni gan gyfrannu at holl waith y cwmni gan gynnwys prosesau cynllunio rhaglen artistig, amserlenni gweithgareddau'r cwmni, a chyfrannu at ddatblygiad cyffredinol y cwmni.

TEITL Y SWYDD:

# RHEOLWR MARCHNATA A CHYFATHREBU

**Graddfa Cyflog:** £25,397 – £31,389 pro rata, gan ddibynnu ar brofiad.

**Oriau Gwaith:** 32 - 40 awr yr wythnos gan gynnwys oriau anghymdeithasol

**Yn Atebol i'r:** Cyfarwyddwr Busnes

**Lleoliad**: Aberystwyth

## GOFYNION Y SWYDD:

- creu ac arwain cynlluniau marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer gweithgareddau unigol y cwmni a'r ganolfan yn Aberystwyth o fewn amcanion Cynllun Busnes a Chytundeb Diwylliannol cyfredol y cwmni;
- llunio strategaethau marchnata a chyhoeddusrwydd tymor canolig a hir y cwmni a'u gweithredu;
- hyrwyddo gwaith y cwmni i ddarparwyr eraill – theatrau a chanolfannau;
- cydlynu gwaith a staff marchnata eraill pan fydd staff dros dro.

## SGILIAU HANFODOL:

- Profiad neu hyfforddiant cyfathrebu a marchnata.
- Profiad o ddefnyddio amrediad o gyfryngau hyrwyddo neu wybodaeth amdanynt.
- Sgiliau iaith proffesiynol uchel yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.
- Y gallu i weithio yn annibynnol ac fel aelod o dîm o gydweithwyr.
- Diddordeb byw yn y celfyddydau a diwylliant.
- Byddai sgiliau eraill yn fanteisiol – profiad o weithio gyda plant a phobl ifanc, dylunio, creu a golygu darnau fideo a sain.

## MARCHNATA A CHYHOEDDUSRWYDD

- Datblygu a gweithredu arddulliau marchnata a chyhoeddusrwydd a'u defnyddio mewn ffyrdd penodol ar gyfer cynyrchiadau a gweithgareddau unigol.
- Creu neu gomisiynu deunydd marchnata a threfnu iddo gael ei argraffu a'i ddosbarthu.
- Creu neu gomisiynu deunydd marchnata digidol – fideo a sain.
- Ymchwil marchnata penodol lle bo'n briodol.
- Cydweithio gyda swyddogion marchnata theatrau a chanolfannau perfformio proffesiynol; darparu deunydd hysbysebu a marchnata ar eu cyfer.
- Rhoi cymorth ymarferol a chyngor i unigolion o'r gymuned sy'n trefnu perfformiadau yn eu cymunedau.
- Cydlynu a rheoli staff marchnata eraill.

## HYRWYDDO'R CWMNI

- Sicrhau proffil 'ar-lein' y cwmni yn gyson drwy weinyddu gwefan y cwmni, Facebook, TikTok, blogiau a phlatfformau eraill.
- Paratoi deunydd testun, gweledol a digidol i hyrwyddo'r cwmni a'i waith.
- Rheoli a diweddaru bas-data rhestr bostio'r cwmni.
- Creu a datblygu cysylltiadau a pherthynas dda gyda mudiadau, clybiau a sefydliadau cymunedol.
- Cydweithio gyda staff eraill y cwmni i ddatblygu cysylltiadau a pherthynas dda gyda sefydliadau corfforaethol eraill.
- Trefnu a llunio datganiadau i'r wasg a llunio hysbysebion.
- Creu perthynas gyda darpar adolygwyr a golygyddion.
- Meithrin a chynnal perthynas dda efo'r cyfryngau a'r wasg er mwyn sicrhau sylw yn y wasg i holl weithgareddau'r cwmni, a monitro'r sylw.
- Trefnu arddangosfeydd blaen tŷ ar gyfer theatrau ac arddangosfeydd y cwmni mewn eisteddfodau a mannau eraill.
- Hyrwyddo gwaith y cwmni dramor.
- Sicrhau, gyda'r Rheolwr Gweinyddol, bod gwahoddiadau i fynychu perfformiadau yn cael eu dosbarthu i Gyngor Celfyddydau Cymru, Bwrdd Rheoli'r Cwmni, Cynghorwyr, y wasg, mudiadau perthnasol eraill ac ati.

## TREFNU TEITHIAU

- Cynorthwyo gyda trefnu teithiau o gynyrchiadau'r cwmni i theatrau, canolfannau celfyddydol a lleoliadau cymunedol.

## GWEINYDDOL

- Cofnodi data gweithgaredd (h.y. nifer perfformiadau/ cynulleidfa/ theatrau ac ati) pob cynhyrchiad a chynllun.
- Sicrhau bod cofnod ffotograffig a fideo o bob cynhyrchiad.
- Cadw archif o ddatganiadau, erthyglau ac adolygiadau am waith y cwmni.
- Mynychu gŵyliau theatr tramor yn achlysurol.
- Rheoli gwaith myfyrwyr sydd yn gweithio gyda'r cwmni yn achlysurol.

## AGOR DRYSAU

- Cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a threfnydd Gŵyl Agor Drysau (www.agordrysau-openingdoors.org) i farchnata'r ŵyl (sydd yn digwydd, fel arfer, bob tair neu bedair blynedd).

## ERAILL

- Cyfrifoldeb am waith blaen-tŷ yng nghanolfan Arad Goch neu mewn canolfannau perfformio eraill yn ôl yr angen yn achlysurol.
- Cynrychioli'r cwmni mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac mewn cyfarfodydd a phwyllgorau ble y trafodir materion am farchnata.
- O dro i dro, ymgymryd â mân ddyletswyddau eraill perthnasol i'r swydd ar ofyn y Cyfarwyddwr Artistig.
- Sefydlu fforymau achlysurol er mwyn casglu barn y cyhoedd.
- Mynychu cyfarfodydd staff y cwmni gan gyfrannu e.e. at brosesau cynllunio rhaglen artistig; amserlenni gweithgareddau'r cwmni; a chyfrannu at ddatblygiad cyffredinol y cwmni.
- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli a'i is-bwyllgorau yn achlysurol a phan fo angen.

TEITL Y SWYDD:

# CYNHYRCHYDD

**Graddfa Cyflog:** £25,397 - £31,389 pro rata, gan ddibynnu ar brofiad.

**Oriau Gwaith:** 24 awr yr wythnos gan gynnwys oriau anghymdeithasol

**Yn Atebol i'r:** Cyfarwyddwr Artistig

**Lleoliad**: i'w drafod

## CRYNODEB:

Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn chwilio am Gynhyrchydd fydd yn gallu cefnogi'r gwaith o gyflwyno theatr i blant a phobl ifanc o'r safon uchaf led led Cymru ac yn rhyngwladol, yn ogystal â threfnu a chydlynu gweithgareddau creadigol cyfranogol y cwmni yng Nghanolfan Arad Goch.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn aelod brwdfrydig, hyblyg a gwerthfawr o staff y cwmni fydd yn cydweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Busnes a'r Cyfarwyddwr Artistig er mwyn cyflwyno a datblygu rhaglen waith greadigol a gweithredu ar strategaethau'r cwmni er mwyn gwireddu gweledigaeth y cwmni i'r safon uchaf.

Mae rôl Cynhyrchydd yn rôl newydd o fewn y cwmni, ac yn gyfle arbennig i fod yn rhan o dîm prysur ac egnïol Arad Goch, fydd yn cyd-weithio gydag amrywiaeth o artistiaid llaw-rydd ac ystod eang o blant, pobl ifanc a'r gymuned. Aberystwyth yw lleoliad Canolfan Arad Goch felly bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio o'r ganolfan rhan fwyaf o'r amser, ond rydym ni'n agored i drafod trefniadau gweithio hyblyg, yn cynnwys trefniant gweithio hybrid sy'n golygu cyfuniad o weithio yn y swyddfa a gweithio o gartref.

## SWYDD DDISGRIFIAD

- Trefnu perfformiadau a theithiau cyhoeddus y cwmni
- Cytundebu theatrau a chanolfannau celfyddydol
- Trefnu sesiynau castio a galwadau agored
- Trefnu, cydlynu, cytundebu ac amserlenni clybiau drama y cwmni a gweithgareddau cyfranogol y cwmni yn y Ganolfan.
- Cyd-weithio gyda'r Cyfarwyddwr Busnes a'r Cyfarwyddwr Artistig ar prosiectau creadigol y cwmni.
- Cynorthwyo Cynhyrchydd Gŵyl Agor Drysau gyda threfniadau amrywiol yr Ŵyl.
- Ymchwilio a chefnogi gyda ceisiadau am nawdd ar gyfer prosiectau creadigol unigol.
- Magu perthynas gryf gyda theatrau a chanolfannau, partneriaid prosiect a rhanddeiliaid y cwmni, gyda'r hyder i feithrin cysylltiadau newydd i'r cwmni.
- Cynrychioli'r cwmni mewn cyfarfodydd a digwyddiadau amrywiol
- Cynorthwyo gyda threfniadau teithiau i ŵyliau tramor – gall gynnwys trafod gyda'r gŵyliau, trefnu llety a theithio, gwneud ceisiadau ar gyfer visas, ayb.
- Dyletswyddau yn y Ganolfan gyda'r nos ac ar benwythnos yn achlysurol
- Cefnogi gyda chwilio am nawdd ar gyfer prosiectau unigol.

**SGILIAU HANFODOL:**

- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r cwmni yn cynnig cyfleoedd i fynychu hyfforddiant gloywi iaith os oes angen cymorth i ddatblygu hyder mewn sgiliau iaith Gymraeg.
- Profiad o weithio yn trefnu digwyddiadau neu o weithio mewn lleoliadau celfyddydol
- Profiad o weithio gyda phlant, pobl ifanc a'r gymuned.
- Y gallu i weithio mewn tîm ac yn annibynnol
- Y gallu i reoli amser yn dda ac i weithio i derfynau amser.
- Profiad o reoli cyllidebau
- Sgiliau trefnu a chydlynu gwych.
- Sgiliau perthnasol o TG.
- Y gallu i weithio dan bwysau, a sgiliau datrys problemau da.



Cwmni Theatr Arad Goch

aradgoch.cymru